



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# **Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru**

**Data hyd ddiwedd 2021**

# Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rydyn ni'n gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Rydyn ni'n gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

<https://icc.gig.cymru/>

Cydnabyddiaethau

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at systemau data ac arolygu ar gyfer Twbercwlosis yng Nghymru.

Lluniwyd yr adroddiad gan grŵp pwnc arbenigol BBV, STI, TB ac Anghydraddoldebau, Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru (CDSC).

**Cyfeiriadau a Awgrymir:** Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023). Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru (Data hyd at ddiwedd 2021). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Tabl Cynnwys

<b>Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru</b> .....	<b>1</b>
<b>Data hyd ddiwedd 2021</b> .....	<b>1</b>
.....	<b>2</b>
<b>Tabl Cynnwys</b> .....	<b>3</b>
<b>1 Crynodeb Gweithredol</b> .....	<b>6</b>
1.1 Diben .....	6
1.2 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol .....	6
<b>2 Ffynonellau, cyfyngiadau a methodoleg data</b> .....	<b>9</b>
2.1 National TB Surveillance System.....	9
2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.....	9
2.3 Dilyniannu genomau cyfan a dadansoddi clwstwr UKHSA .....	10
2.4 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol .....	10
2.5 Adolygiad carfan TB cenedlaethol Cymru.....	10
<b>3 Hysbysiadau am Twbercwlosis (TB) ac achosion</b> .....	<b>11</b>
3.1 Proffil demograffig achosion TB.....	12
3.1.1 <i>Dosbarthiad daearyddol</i> .....	12
3.1.2 <i>Dosbarthiad yn ôl rhyw ac oedran</i> .....	13
3.1.3 <i>Gwlad enedigol ac ethnigrwydd</i> .....	14
3.1.4 <i>Ffactorau risg cymdeithasol, amddifadedd a chydafiacheddau</i> .....	17
<b>4 Diagnosis, microbioleg ac ymwrthedd i gyffuriau</b> .....	<b>21</b>
4.1 Diagnosis a safle'r haint.....	21
4.2 Achosion ag ymwrthedd i nifer o gyffuriau (MDR TB) ac achosion ag ymwrthedd estynedig i gyffuriau (XDR TB) .....	22
<b>5 Triniaeth a chanlyniadau</b> .....	<b>23</b>
5.1 O'r amser pan mae symptomau'n dechrau at amser dechrau'r driniaeth 23	
5.2 Canlyniadau'r driniaeth.....	24
5.2.1 <i>Marwolaethau cysylltiedig â TB</i> .....	26
<b>6 Atal a rheoli TB</b> .....	<b>27</b>
<b>7 Clystyrau a oedd yn destun dilynnianu genomau cyfan</b> .....	<b>28</b>

## **Ffigurau**

Ffigur 1 Cyfraddau Twbercwlosis fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y DU, 2021 .	11
Ffigur 2 Nifer yr Achosion a Chyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth (llinell goch) yng Nghymru, 2012-2021 .....	12
Ffigur 3 Cyfradd gyfartalog pum mlynedd o TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol, 2017-2021 .....	13
Ffigur 4 Cyfraddau TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2017-2021.....	14
Ffigur 5 Nifer cyfartalog o achosion TB dros bum mlynedd a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp ethnig, 2017-2021, Cymru.....	15
Ffigur 6 Cyfran (%) o achosion TB yng Nghymru mewn unigolion a aned yn y DU yn ôl ethnigrwydd, 2017-2021 .....	16
Ffigur 7 Amser rhwng mynediad i'r DU a hysbysiad TB ar gyfer achosion mewn unigolion yng Nghymru a aned y tu allan i'r DU, 2017-2021 .....	17
Ffigur 8 Hanes o ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru 2017-2021 .....	17
Ffigur 9 Hanes o ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru a aned yn y DU, 2017-2021.....	18
Ffigur 10 Hanes ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru a aned y tu allan i'r DU, 2017-2021 .....	19
Ffigur 11 Cyfradd gyfartalog TB yng Nghymru dros 5 mlynedd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl degradd amddifadedd, 2017-2021 .....	20
Ffigur 12 Amser rhwng yr adeg y mae symptomau'n dechrau ac adeg cychwyn triniaeth ar gyfer achosion TB yng Nghymru, 2017-2021.....	23

## **Tablau**

Tabl 1 Cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl y bwrdd iechyd lle mae'r unigolyn yn preswyllo 2017 -2021, Cymru .....	12
Tabl 2 Nifer yr hysbysuadau a chyfraddau TB yng Nghymru yn ôl rhyw, 2017-2021 .....	13
Tabl 3 Nifer a chyfran (%) yr achosion TB mewn cleifion a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU yn ôl blwyddyn.....	14
Tabl 4 Canran yr achosion TB yng Nghymru gyda chydafiacheddau, 2017-2021 .....	20
Tabl 5 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru yn ôl safle'r clefyd, 2017-2021, Cymru .....	21
Tabl 6 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru gyda chadarnhad bacteriolegol, 2017-2021, Cymru .....	22
Tabl 7 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru gyda diagnosis blaenorol, 2017-2021, Cymru.....	22
Tabl 8 Achosion o TB Ysgyfeiniol yng Nghymru gyda chyfnod o >4 mis rhwng yr adeg y mae symptomau'n dechrau ac adeg dechrau'r driniaeth, 2017-2021 ....	23

Tabl 9 Triniaeth TB wedi'i chwblhau ar ôl 12 mis yn ôl grŵp oedran ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig <12 mis, Cymru, 2016-2020 <sup>10</sup> .....	25
Tabl 10 Triniaeth TB wedi'i chwblhau ar ôl 12 mis yn ôl rhyw ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig < 12 mis, Cymru, 2020 <sup>25</sup> .....	25
Tabl 11 Canlyniadau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig < 12 mis, Cymru, 2020 .....	25
Tabl 12 Canlyniadau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl safle'r clefyd ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig <12 mis, Cymru, 2016-2020 <sup>a</sup> .....	26
Tabl 13 Yr holl achosion o TB difrifol ac sy'n sensitif i gyffuriau yr adroddwyd iddynt farw yn y canlyniad diwethaf a gofnodwyd, Cymru, 2016-2020 .....	26
Tabl 14 Canran yr achosion sydd wedi derbyn brechiadau BCG a chanran yr achosion â statws hysbys, 2017-2021 .....	27

# 1 Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Diben

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg epidemiolegol o Twbercwlosis (TB) yng Nghymru. Mae'n cynnwys data ar achosion TB sydd newydd gael diagnosis a adroddwyd drwy'r National Tuberculosis Surveillance System (NTBS). Mae'r adroddiad yn cynnwys data Dilyniannu Genomau Cyfan hefyd a ddarperir gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), ac a ategir gan ddefnyddio NTBS, i ddisgrifio clystyrau o haint TB yng Nghymru. Bwriad yr adroddiad yw bod o ddefnydd i weithwyr iechyd proffesiynol, llunwyr polisi, cyfiawnder troseddol, asiantaethau'r trydydd sector a'r byd academiaidd.

## 1.2 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol

- Cynyddodd nifer yr achosion newydd o TB yng Nghymru o 80 yn 2020 i 90 yn 2021, sy'n gynydd yn nifer yr achosion blynyddol o 2.5 fesul 100,000 i 2.8 fesul 100,000 yn y drefn honno. Mae Cymru'n parhau o fewn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o wlad sydd â nifer isel o achosion (<10 fesul 100,000 y flwyddyn)
- Er gwaethaf y cynnydd diweddar hwn, mae tueddiad cyffredinol o ostyngiad yn nifer yr achosion o TB ers uchafbwynt o 4.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2013, a gostyngiad o 36% yn 2021 o gymharu â 2012
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n parhau i fod â'r cyfraddau uchaf o TB (5.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2021), ac yna Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda 3.4 achos fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Mae cyfraddau TB yn parhau i fod yn uwch ymhlith dynion yn 2021 gyda 3.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â 2.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn menywod, tuedd gymharol sefydlog dros amser
- Roedd dros hanner (64%) o bob diagnosis newydd o TB yng Nghymru yn 2021 mewn cleifion a aned y tu allan i'r Deyrnas Unedig. O'r achosion hyn, roedd 40% ohonynt wedi cael cyfnod o dros 11 mlynedd rhwng cyrraedd y DU a hysbysu'r NTBS (canolrif 9 blwyddyn, IQR 2-18 mlynedd). Nid yw'n hysbys pa gyfran o'r achosion hyn sydd wedi codi oherwydd achosion cudd o'r clefyd ers cyn cyrraedd y DU wedi eu hail-actifadu, eu bod wedi'u cael dramor o'r newydd ar ôl cyrraedd i ddechrau, neu eu bod wedi'u trosglwyddo yn y DU wedi iddynt gyrraedd.

Mae cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB yn parhau uchaf mewn achosion o ethnigrwydd Pacistanaid neu Ddu-Affricanaidd (68.4 fesul 100,000 a 63.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno)

- Mae cyfran yr achosion newydd o TB yn nhrigolion Cymru a aned yn y DU wedi gostwng 10% dros y pum mlynedd diwethaf, o 44% i 34%
- Yn 17% o achosion TB hunangofnodedig yn 2021, roedd o leiaf un ffactor risg cymdeithasol, a chamddefnyddio cyffuriau oedd y ffactor risg mwyaf cyffredin (14%). Adroddodd 8% o achosion hunangofnodedig fod ganddynt ddau neu ragor o ffactorau risg.
- Roedd ffactorau risg cymdeithasol yn cael eu hadrodd bum gwaith yn amlach mewn achosion ymysg pobl a aned yn y DU, gyda 35% o'r achosion a adroddwyd ag o leiaf un ffactor risg cymdeithasol. Roedd hyn yn cymharu â 7% yn yr achosion ymhlith pobl a aned y tu allan i'r DU.
- Mae haint TB yn cael ei adrodd yn amlach yn y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB ddeuddeg gwaith yn fwy yn y rhai a oedd yn byw yn y deigradd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r lleiaf difreintiedig (8.5 a 0.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno)
- Yn 2021, cafwyd cadarnhad o 74% o'r holl achosion trwy feithriniad, a chadarnhad o 95% o achosion ysgyfeiniol (gyda chlefyd allysgyfeiniol neu hebdo) trwy feithriniad. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na tharged Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) o 80% ar gyfer cadarnhau twbercwlosis ysgyfeiniol trwy feithriniad<sup>1</sup>
- Roedd lleoliad haint y mwyafrif (62%) o achosion TB yn 2021 yn yr ysgyfaint, gyda 95% o'r achosion hyn wedi eu cadarnhau trwy feithriniad. O'r achosion gyda sampl o brawf sbwtwm, roedd 70% yn bositif gan ddangos risg uchel posibl o drosglwyddo'r haint ymlaen
- Mae tueddiadau TB ag ymwrthedd i gyffuriau yng Nghymru yn parhau'n gymharol sefydlog gyda'r rhai a nodwyd ag unrhyw ymwrthedd i un neu ragor o'r cyffuriau a argymhellir i'w defnyddio gyntaf yn cynyddu ychydig o 8% yn 2020 i 9% yn 2021
- O'r achosion sy'n dangos symptomau TB, roedd 43% wedi dechrau triniaeth o fewn dau fis i'r adeg pan ddechreuodd y symptomau. Fodd bynnag, dechreuodd 16% o achosion ysgyfeiniol dderbyn triniaeth fwy na phedwar mis ar ôl dangos symptomau

---

<sup>1</sup> Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC). – [101111\\_SPR\\_Progressing\\_towards\\_TB\\_elimination.pdf](https://ecdc.europa.eu/en/files/default-source/press/101111_SPR_Progressing_towards_TB_elimination.pdf) (europa.eu)

- Nid oes data ar gyfer canlyniadau triniaeth wedi'u darparu ar NTBS hyd yma ar gyfer 28% o'r achosion (n = 20) yng Nghymru yn 2020. 2% oedd y ffigur hwn yn y flwyddyn flaenorol

## 2 Ffynonellau, cyfyngiadau a methodoleg data

### 2.1 National TB Surveillance System

Mae'r National TB Surveillance System (NTBS) yn system wylidwraeth a gynhelir gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) sy'n darparu gwybodaeth fanwl am epidemioleg twbercwlosis yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae timau clinigol yn hysbysu am achosion sydd newydd gael diagnosis ac yn diweddarau'r wybodaeth am ganlyniadau triniaeth. Mae pob person sy'n cael diagnosis o TB yng Nghymru yn cael ei adrodd drwy NTBS. Mae UKHSA yn gwneud gwaith echdynnu a glanhau data er mwyn sicrhau dad-ddyblygu ar draws Cymru a Lloegr cyn i'r data gael eu rhyddhau i Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w cyhoeddi.

### 2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)<sup>2</sup> yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru. Mae MALIC yn nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Prif ddiben y mynegai yw darparu'r dystiolaeth i lywio cynllunio a pholisi gan gynnwys ariannu neu dargedu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol. Mae MALIC yn graddio holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth parth (neu fath) o amddifadedd ar wahân. Mae pob parth yn cael ei lunio o amrywiaeth o wahanol ddangosyddion. Y parthau sydd wedi'u cynnwys yn MALIC 2019 yw:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at Wasanaethau
- Tai
- Diogelwch Cymunedol
- Yr Amgylchedd Ffisegol

Mae MALIC yn fesur o amddifadedd lluosog sy'n seiliedig ar ardal ac ar amddifadedd cymharol.

---

<sup>2</sup>Mae rhagor o wybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru>

## 2.3 Dilyniannu genomau cyfan a dadansoddi clwstwr UKHSA

Mae'r gwaith o ddilyniannu genomau cyfan (WGS) ar samplau TB sydd wedi eu cadarnhau trwy feithriniad yng Nghymru yn cael ei wneud gan yr Uned Genomeg Pathogenau (PenGU). Mae gwybodaeth am glystyrau o TB sy'n gysylltiedig â WGS sy'n cynnwys dau neu ragor o achosion yng Nghymru yn cael ei chynhyrchu gan UKHSA drwy biblinell Forest gan ddefnyddio canlyniadau WSG. Mae pellter o 12 polymorffedd niwcleotid sengl (SNP) wedi'i bennu ar gyfer clystyru unigion. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cysylltu gwybodaeth cleifion gan NTBS â'r data dilyniannu sy'n dod o unigion.

## 2.4 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn darparu amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol canol blwyddyn am y boblogaeth ar gyfer y DU a'i gwledydd cyfansoddol yn ôl ardal weinyddol, oedran a rhyw (gan gynnwys cydrannau newid yn y boblogaeth, oedran canolrif a dwysedd poblogaeth). Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer rhywedd, oedran a lleoliad preswyl yn seiliedig ar ffigurau canol blwyddyn 2021<sup>3</sup>. Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Ethnigrwydd yn seiliedig ar gyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011<sup>4</sup>.

## 2.5 Adolygiad carfan TB cenedlaethol Cymru

Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Adolygu Carfan wedi bod ar waith ers 2012 ac mae'n cynnwys Grŵp Cyflawni Anadlol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r adolygiad carfan yn darparu gwell data ar bob achos sy'n deillio o'r NTBS (yr Enhanced Surveillance System (ETS) gynt) ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae gan yr Adolygiadau Carfan gynrychiolaeth gan staff meddygol a nyrsio ym mhob bwrdd iechyd yn ogystal â'r Tîm Diogelu Iechyd a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Defnyddiwyd data achosion uwch sy'n ymwneud â chydafiacheddau yn yr adroddiad hwn.

---

<sup>3</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon o'r boblogaeth canol 2021. [Amcangyfrifon canol blwyddyn ONS o'r boblogaeth](#)


<sup>4</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021 - Ethnigrwydd a Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghymru a Lloegr: 2021 [Data Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Ethnigrwydd](#)

### 3 Hysbysiadau am Twbercwlosis (TB) ac achosion

Yn 2021, cafodd cyfanswm o 90 o achosion newydd o TB oedd newydd gael diagnosis eu hadrodd yng Nghymru (2.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Er bod hyn yn gynnydd o 12.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (80 achos, 2.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth) gwelwyd tuedd o ostyngiad cyffredinol yn yr achosion a adroddwyd yng Nghymru dros y degawd diwethaf.

Mae cyfraddau TB yng Nghymru yn parhau i fod yn un o'r isaf yn y DU ochr yn ochr â Gogledd Iwerddon gyda chyfradd o 2.8 fesul 100,000. Mae cyfradd y DU yn 7.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth (Ffigur 1).


**Ffigur 1 Cyfraddau Twbercwlosis fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y DU, 2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

Mae hysbysiadau am TB a chyfraddau TB yng Nghymru wedi gostwng 34% dros y deng mlynedd diwethaf rhwng 2012 a 2021 (Ffigur 2).

**Ffigur 2 Nifer yr Achosion a Chyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth (Ilinell goch) yng Nghymru, 2012-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

### 3.1 Proffil demograffig achosion TB

#### 3.1.1 Dosbarthiad daearyddol

Yn 2021, roedd y nifer uchaf o achosion newydd o TB yr adroddwyd amdanynt yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (23 achos, 25.6%), ac mae hyn yn cynrychioli cyfradd o 5.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Cafodd y gyfradd isaf ei chofnodi ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, sef 1.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Dangosir cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl bwrdd iechyd lle mae'r unigolyn yn preswyl yn Nhabl 1.


**Tabl 1 Cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl y bwrdd iechyd lle mae'r unigolyn yn preswyl 2017 -2021, Cymru**

	2017	2018	2019	2020	2021
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	4.6	3.2	5.2	3.0	3.4
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	3.2	2.7	2.6	1.6	2.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	5.5	6.6	5.6	5.6	5.1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.0	1.6	3.1	1.8	2.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	1.6	1.6	0.8	0.5	1.8
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	2.3	0.8	2.3	3.0	1.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	2.6	2.8	1.0	2.3	2.4
Cyfanswm	3.3	3.1	3.2	2.5	2.8

Ffynhonnell: NTBS, 2023

Yn ardaloedd y bwrdd iechyd, mae amrywiad sylweddol yng nghyfraddau achosion y gwahanol awdurdodau lleol, fel y dangosir yn Ffigur 3, gyda Chasnewydd a Chaerdydd yn nodi'r cyfraddau uchaf o'r naill flwyddyn i'r llall, gyda chyfraddau cyfartalog 5 mlynedd (2017-2021) o 11 a 7.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno.

**Ffigur 3 Cyfradd gyfartalog pum mlynedd o TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol, 2017-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

### 3.1.2 Dosbarthiad yn ôl rhyw ac oedran

O'r 90 achos a adroddwyd yn 2021, roedd 60% yn ddynion a 40% yn fenywod (cyfraddau o 3.6 a 2.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno). Mae'r gymhareb hon wedi aros yn weddol sefydlog dros amser (Tabl 2).


**Tabl 2 Nifer yr hysbysiadau a chyfraddau TB yng Nghymru yn ôl rhyw, 2017-2021**

	2017		2018		2019		2020		2021	
	Achosion	Cyfradd	Achosion	Cyfradd	Achosion	Cyfradd	Achosion	Cyfradd	Achosion	Cyfradd
<b>Dynion</b>	59	3.8	67	4.3	67	4.3	51	3.3	54	3.6
<b>Menywod</b>	45	2.8	29	1.8	34	2.1	29	1.8	36	2.3
	<b>104</b>		<b>96</b>		<b>101</b>		<b>80</b>		<b>90</b>	

Ffynhonnell: NTBS, 2023

Mae'r gyfradd achosion o TB wedi aros ar ei uchaf ymhlith y rhai 25-34 oed (6.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth) yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac eithrio 2019, ac mae'r gyfradd achosion yn y rhai 65+ oed yn parhau i ostwng, fel y dangosir yn ffigur 4.

**Ffigur 4 Cyfraddau TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2017-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

### 3.1.3 Gwlad enedigol ac ethnigrwydd

#### Gwlad enedigol

Roedd dros hanner (64%) yr achosion o TB a adroddwyd yng Nghymru mewn unigolion a aned dramor, roedd 34% yr achosion mewn cleifion a aned yn y DU ac nid oedd cofnod ar gael o leoliad geni gweddill yr achosion a adroddwyd (Tabl 3). Mae cyfran yr achosion mewn unigolion a aned dramor wedi cynyddu 12 pwynt canran dros y pum mlynedd.

**Tabl 3 Nifer a chyfran (%) yr achosion TB mewn cleifion a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU yn ôl blwyddyn**

Lleoliad Geni	2017		2018		2019		2020		2021	
	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%
Ganed yn y DU	46	44	49	51	42	42	30	38	31	34
Ganed Dramor	54	52	45	47	53	52	48	60	58	64
Ddim yn Hysbys	<5	4	<5	2	6	6	<5	3	<5	1
<b>Total</b>	<b>104</b>		<b>96</b>		<b>101</b>		<b>80</b>		<b>90</b>	


Ffynhonnell: NTBS, 2023

O'r 58 achos mewn unigolion a aned y tu allan i'r DU ac a hysbyswyd amdanynt yn 2021, roedd mwyafrif yr achosion yn tarddu o Dde Asia (50%), Dwyrain Affrica (10%) a Dwyrain Ewrop (10%).

## Ethnigrwydd

Yn 2021, adroddwyd traean (32%) o achosion TB yn y grŵp ethnig gwyn gyda'r 65% sy'n weddill wedi'u hadrodd o fewn grwpiau ethnig eraill, cynnydd o 6% ers 2020. Mae'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi mewn poblogaethau Pacistanaidd, Du Affricanaidd ac Indiaidd<sup>5</sup> (Ffigur 5).

**Ffigur 5 Nifer cyfartalog o achosion TB dros bum mlynedd a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp ethnig, 2017-2021, Cymru**




Ffynhonnell: NTBS, 2023

Mae mwyafrif yr achosion mewn pobl a aned yn y DU o ethnigrwydd Gwyn, gydag amrywiaeth ethnig cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dangosir proffil ethnig achosion TB mewn pobl a aned yn y DU yn ffigur 6.

<sup>5</sup>Cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd – o ddata cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021.

[Data cyfrifiad ONS 2021 - ethnigrwydd](#)


**Ffigur 6 Cyfran (%) o achosion TB yng Nghymru mewn unigolion a aned yn y DU yn ôl ethnigrwydd, 2017-2021**



**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

O'r achosion a hysbyswyd yn 2021 gyda dyddiad hysbys ar gyfer cyrraedd y DU, cafodd 24% ddiagnosis o fewn 2 flynedd ar ôl cyrraedd. Cafodd 40% ddiagnosis TB fwy nag 11 mlynedd ar ôl cyrraedd (Ffigur 7). Nid yw'n hysbys pa gyfran o'r achosion hyn sydd wedi codi oherwydd achosion cudd o'r clefyd ers cyn cyrraedd y DU wedi eu ail-actifadu, eu bod wedi'u cael dramor o'r newydd ar ôl cyrraedd i ddechrau, neu eu bod wedi'u trosglwyddo yn y DU wedi iddynt gyrraedd.

**Ffigur 7 Amser rhwng mynediad i'r DU a hysbysiad TB ar gyfer achosion mewn unigolion yng Nghymru a aned y tu allan i'r DU, 2017-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

### 3.1.4 Ffactorau risg cymdeithasol, amddifadedd a chydafiacheddau

#### Ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig

Yn 2021, ar y cyfan, nododd 17% o achosion hunangofnodedig o leiaf un ffactor risg cymdeithasol (SRF), gostyngiad o gymharu â chyfnod 2018-2020 (Ffigur 8). Yr SRF mwyaf cyffredin yn y garfan oedd camddefnyddio cyffuriau (14%). Adroddwyd dau SRF neu ragor gan 8%, sy'n arwydd o risg mwy cymhleth

**Ffigur 8 Hanes o ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru 2017-2021**


	2017	2018	2019	2020	2021
<b>Defnyddio cyffuriau</b>	7%	12%	11%	16%	14%
<b>Camddefnyddio alcohol</b>	9%	11%	3%	9%	7%
<b>Digartrefedd</b>	6%	7%	4%	7%	9%
<b>Carchar</b>	7%	10%	12%	8%	9%
<b>1 neu ragor o ffactorau risg</b>	15%	18%	21%	20%	17%
<b>2 neu ragor o ffactorau risg</b>	9%	11%	8%	15%	8%

Ffynhonnell: NTBS, 2023

Fodd bynnag, mae cyfraddau ffactorau risg cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol rhwng cleifion a aned yn y DU a'r rhai a aned y tu allan i'r DU fel y dangosir yn Ffigurau 9 a 10.

Yn 2021, dywedodd 35% o achosion mewn pobl a aned yn y DU fod ganddynt o leiaf 1 SRF ac roedd gan 19% ddau neu ragor. Y ffactor gyda'r gyfran fwyaf o achosion oedd camddefnyddio cyffuriau (34%) a chamddefnyddio alcohol (18%).


**Ffigur 9 Hanes o ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru a aned yn y DU, 2017-2021**



**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

O'r achosion mewn pobl a aned y tu allan i'r DU a adroddwyd yn 2021, adroddodd 7% o leiaf un SRF ac adroddodd 2% ddau neu ragor (Ffigur 10). Yn y boblogaeth hon, carchar a digartrefedd oedd y ffactorau risg cymdeithasol yr adroddwyd amdanynt amlaf.

**Ffigur 10 Hanes ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig neu ffactorau risg cymdeithasol hunangofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru a aned y tu allan i'r DU, 2017-2021**




**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

### **Amddifadedd**

Mae haint TB yn cael ei adrodd yn amlach yn y rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Ffigur 11). Mae cyfradd TB wedi bod ar ei uchaf yn y degradd<sup>6</sup> mwyaf difreintiedig ers 2017. Yn 2021, y gyfradd yn y degradd mwyaf difreintiedig oedd 8.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth a 0.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y degradd lleiaf difreintiedig.

<sup>6</sup>Wedi'i fesur gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation>

**Ffigur 11 Cyfradd gyfartalog TB yng Nghymru dros 5 mlynedd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl degradd amddifadedd, 2017-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

### Cydafiacheddau

Yn yr achosion hynny a hysbyswyd amdanynt yn 2021 lle'r oedd statws cydafiachedd yn hysbys, roedd gan 13% o'r achosion ddiabetes (Ffigur 4). Yr ail gydafiachedd mwyaf cyffredin oedd ataliad imiwnedd (7%).

**Tabl 4 Canran yr achosion TB yng Nghymru gyda chydafiacheddau, 2017-2021**

	5-Year Average (% of total cases)
Diabetes	10%
HIV	1%
Feirws Hepatitis B	1%
Feirws Hepatitis C	3%
Clefyd Cronig yr Afu	2%
Clefyd Arennol Cronig	2%
Imiwnoataliedig <sup>1</sup>	7%

<sup>1</sup>Mae imiwnoataliedig yn cynnwys y rhai sydd â chlefydau penodol, cyflyrau llidiol cronig, y rhai ar therapi biolegol a derbynwyr trawsblaniad

Ffynhonnell: Data adolygu carfan NTBS a Chymru, 2023

## 4 Diagnosis, microbioleg ac ymwrthedd i gyffuriau

### 4.1 Diagnosis a safle'r haint

Roedd twbercwlosis ysgyfeiniol gyda neu heb glefyd allysgyfeiniol yn cyfrif am 62% o achosion yn 2021; o'r rhain, roedd gan 27% ohonynt glefyd allysgyfeiniol hefyd.

**Tabl 5 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru yn ôl safle'r clefyd, 2017-2021, Cymru**

Lleoliad y Clefyd*	2017		2018		2019		2020		2021	
	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%
Ysgyfeiniol**	60	58	73	76	76	75	46	58	56	62
Nodau lymff allthorasig	21	20	9	9	9	9	9	11	10	11
Nodau lymff mewnthorasig	7	7	7	7	5	5	10	13	10	11
Eisbilennol	6	6	<5	<5	9	9	7	9	7	8
Gastroberfeddol	9	9	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
CNS-meningitis	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
CNS-arall	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
Asgwrn-Asgwrn Cefn	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	6	7
Asgwrn-arall	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
Cenhedlol-wrinol	<5	<5	5	6	<5	<5	<5	<5	<5	<5
Laryngaidd	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
Cryptig	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
Allysgyfeiniol arall	22	21	17	18	26	26	26	33	20	22
Allysgyfeiniol sydd ddim yn hysbys	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm achosion</b>	<b>104</b>		<b>96</b>		<b>101</b>		<b>80</b>		<b>90</b>	

\*Gall cleifion fod â chlefyd mewn mwy nag un safle

\*\*Mae TB ysgyfeiniol yn cynnwys TB gronynnol yn unol ag argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd a diffiniadau adrodd rhyngwladol<sup>7</sup>

**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

Yn 2021, cadarnhawyd 74% o'r holl achosion drwy feithriniad, a chadarnhawyd 95% o achosion ysgyfeiniol (gyda chlefyd allysgyfeiniol neu hebdo) trwy feithriniad. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na tharged Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) o 80% ar gyfer cadarnhau twbercwlosis ysgyfeiniol<sup>8</sup> trwy feithriniad.

Ymhlith 65 o achosion wedi'u cadarnhau trwy feithriniad:

- Roedd 93% o ganlyniad i *M. tuberculosis*
- Roedd 3% o ganlyniad i *M. Bovis*
- Roedd 1% o ganlyniad i *M. africanum*
- Ni chafodd y 3% o achosion sy'n weddill eu cofnodi

<sup>7</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). - [9789241505345\\_eng.pdf?sessionid=566A278C331FC702C9AFE216543CB6E2](https://www.who.int/publications/m/item/9789241505345_eng.pdf?sessionid=566A278C331FC702C9AFE216543CB6E2) (who.int)

<sup>8</sup> Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC). - [101111-SPR-Progressing-towards-TB-elimination.pdf](https://ecdc.europa.eu/en/our-work/research-reports/101111-SPR-Progressing-towards-TB-elimination.pdf) (europa.eu)

**Tabl 6 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru gyda chadarnhad bacteriolegol, 2017-2021, Cymru**

Canlyniadau Bacteriolegol	2017		2018		2019		2020		2021	
	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%
Cadarnhad trwy feithriniad <sup>1</sup>	75	72	79	82	82	81	66	83	67	74
Achosion Ysgyfeiniol wedi'u cadarnhau trwy feithriniad <sup>2</sup>	51	84	65	87	64	85	42	89	53	95
Achosion Ysgyfeiniol lle cafodd prawf sbwtwm ei gymryd <sup>2</sup>	33	54	40	53	37	49	30	64	30	54
Achosion ysgyfeiniol lle cafwyd prawf sbwtwm positif <sup>3</sup>	21	64	29	73	25	68	19	63	21	70

<sup>1</sup>Enwadur ar gyfer canran yw cyfanswm nifer yr achosion TB

<sup>2</sup>Enwadur ar gyfer canran yw cyfanswm nifer yr achosion TB ysgyfeiniol

<sup>3</sup>Enwadur ar gyfer canran yw nifer yr achosion ysgyfeiniol lle cafodd prawf sbwtwm ei gymryd

Ffynhonnell: NTBS, 2023

**Tabl 7 Nifer a chanran yr achosion o TB yng Nghymru gyda diagnosis blaenorol, 2017-2021, Cymru**

Diagnosis Blaenorol	2017		2018		2019		2020		2021	
	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%	Achosion	%
Oedd	6	6	6	6	8	8	<5	<5	6	7
Nag oedd	93	89	89	93	88	87	75	94	73	81
Heb adrodd	5	5	<5	<5	5	5	<5	<5	11	12
<b>Cyfanswm</b>	<b>104</b>		<b>96</b>		<b>101</b>		<b>80</b>		<b>90</b>	

Ffynhonnell: NTBS, 2023

Yn 2021, dywedodd 7% o achosion eu bod wedi cael diagnosis blaenorol o TB gweithredol fel y gwelwyd yn Nhabl 7. Pan gafodd hyn ei adrodd, roedd pob achos yn 2021 a oedd â diagnosis blaenorol wedi derbyn triniaeth ar gyfer eu diagnosis blaenorol.

## 4.2 Achosion ag ymwrthedd i nifer o gyffuriau (MDR TB) ac achosion ag ymwrthedd estynedig i gyffuriau (XDR TB)

Diffinnir MDR TB fel ymwrthedd i riffampicin ac isoniazid, dau o'r prif wrthfotigau a ddefnyddir i drin TB. Yn 2021, aeth WHO ati i greu diffiniadau newydd ar gyfer pre-XDR TB ac XDR TB<sup>9</sup>:

- Pre-XDR: Straeniau o TB sy'n bodloni diffiniad MDR gydag ymwrthedd ychwanegol i unrhyw fluoroquinolone
- XDR: Straeniau o TB sy'n bodloni diffiniad MDR gydag ymwrthedd ychwanegol i unrhyw fluoroquinolone ac o leiaf un cyffur Grŵp A

Yn 2021, roedd cynnydd byd-eang o 3.1% mewn MDR-TB o gymharu â 2020, o bosibl oherwydd effeithiau pandemig COVID-19 ar brosesau canfod TB<sup>10</sup>. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, adroddwyd am 10 achos MDR drwy NTBS. Fodd bynnag, nid oedd gan 3 ohonynt ymwrthedd i riffampicin (marciwr MDR) ond maen nhw wedi derbyn triniaeth MDR. Mae dau achos wedi derbyn triniaeth XDR.


<sup>9</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) [WHO announces updated definitions of extensively drug-resistant tuberculosis](#)

<sup>10</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) [2.3 Drug-resistant TB \(who.int\)](#)

## 5 Triniaeth a chanlyniadau

### 5.1 O'r amser pan mae symptomau'n dechrau at amser dechrau'r driniaeth

**Ffigur 12 Amser rhwng yr adeg y mae symptomau'n dechrau ac adeg cychwyn triniaeth ar gyfer achosion TB yng Nghymru, 2017-2021**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

Yn 2021:

- O'r achosion symptomatig, cynyddodd y gyfran sy'n cychwyn triniaeth lai na deufis ar ôl i'r symptomau ddechrau o 25% yn 2020 i 43%
- Dechreuodd 16% o achosion ysgyfeiniol driniaeth dros bedwar mis ar ôl i'r symptomau ddechrau, o gymharu â 25% yn 2019 (Tabl 8)

Mae'n bosibl bod sawl ffactor yn dylanwadu ar yr oedi hwn rhwng yr adeg y mae symptomau'n dechrau ac adeg dechrau'r driniaeth gan gynnwys ymddygiad wrth geisio gofal iechyd neu oedi yn y llwybr clinigol. Mae oedi wrth geisio gofal, yn enwedig ymhlith achosion o TB ysgyfeiniol gyda phrawf sampl spwtwm positif, yn peri risg bosibl o drosglwyddo i eraill.

**Tabl 8 Achosion o TB Ysgyfeiniol yng Nghymru gyda chyfnod o >4 mis rhwng yr adeg y mae symptomau'n dechrau ac adeg dechrau'r driniaeth, 2017-2021**


Symptomau'n dechrau hyd at gychwyn y driniaeth	2017	2018	2019	2020	2021
	n %	n %	n %	n %	n %
>4 mis	12 20%	18 25%	19 25%	14 30%	9 16%

## 5.2 Canlyniadau'r driniaeth

Mae data ar gyfer canlyniadau'r driniaeth ar gyfer y garfan sy'n sensitif i gyffuriau yn cael ei adrodd fel mater o drefn yn ôl blwyddyn yr hysbysiad. Nid yw'r data canlyniadau ar gyfer 2021 wedi'u cwblhau eto oherwydd hyd y driniaeth.

Mae data canlyniadau ar gael ar gyfer 72 (90%) o achosion newydd a gafodd ddiagnosis yn 2020<sup>11</sup>. Gostyngodd cyfran yr achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd disgwylidig o ran triniaeth o lai na 12 mis ac a oedd wedi cwblhau triniaeth o 84% i 64% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes unrhyw ddata ar gyfer canlyniadau triniaeth wedi'u darparu ar NTBS hyd yma ar gyfer 28% o achosion (n = 20) Cymru yn 2020, cynnydd o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r herwydd, dylid trin y data hwn yn ofalus.

**Ffigur 13 Canlyniad triniaeth TB ar ôl 12 mis ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd disgwylidig o <12 mis ar gyfer y driniaeth, Cymru, 2016-2020<sup>10</sup>**



Ffynhonnell: NTBS, 2023

Mae tablau 9 i 12 yn dangos canlyniad triniaeth yn ôl grŵp oedran, proffil rhyw, bwrdd iechyd preswyl a safle'r clefyd yn y drefn honno.

<sup>11</sup> Cafodd 8 achos eu heithrio oherwydd ymwrthedd cychwynnol a helaeth i riffampicin ac achosion MDR-TB a gafodd driniaeth a'r rhai â TB CNS, asgwrn cefn, gronynnol neu gryptig sydd wedi lledaenu.

**Tabl 9 Triniaeth TB wedi'i chwblhau ar ôl 12 mis yn ôl grŵp oedran ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig <12 mis, Cymru, 2016-2020<sup>10</sup>**

Blwyddyn	0-4		5-14		15-24		25-34		35-44		45-54		55-64		65+	
	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%
2016	0	-	<5	100	7	88	17	94	19	95	14	93	10	67	10	59
2017	<5	40	<5	50	12	92	16	80	10	77	8	53	10	77	9	60
2018	<5	100	0	-	13	93	14	93	12	86	18	90	11	79	6	60
2019	<5	100	8	100	11	79	16	89	14	100	9	90	7	58	11	73
2020	0	-	0	-	8	89	7	44	8	53	8	62	6	86	9	75

Ffynhonnell: NTBS, 2023

**Tabl 10 Triniaeth TB wedi'i chwblhau ar ôl 12 mis yn ôl rhyw ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig < 12 mis, Cymru, 2020**

Blwyddyn	Dynion		Menywod	
	n	%	n	%
2016	45	85	34	81
2017	42	79	26	60
2018	56	88	19	79
2019	48	80	31	91
2020	30	65	16	62

**Tabl 11 Canlyniadau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig < 12 mis, Cymru, 2020**

BILI	2016			2017			2018			2019			2020		
	Cyfanswm		Triniaeth wedi'i chwblhau	Cyfanswm		Triniaeth wedi'i chwblhau	Cyfanswm		Triniaeth wedi'i chwblhau	Cyfanswm		Triniaeth wedi'i chwblhau	Cyfanswm		Triniaeth wedi'i chwblhau
	n	n	%	n	n	%	n	n	%	n	n	%	n	n	%
Aneurin Bevan	28	26	93	26	16	62	15	12	80	31	24	77	17	15	88
Betsi Cadwaladr	11	10	91	22	17	77	19	18	95	16	14	88	9	7	78
Caerdydd a'r Fro	24	22	92	26	25	96	29	24	83	23	21	91	25	13	52
Cwm Taf Morgannwg	11	5	45	9	8	89	6	6	100	13	10	77	8	6	75
Hywel Dda	10	9	90	6	5	83	<5	<5	50	<5	<5	67	<5	<5	100
Addysgu Powys	<5	<5	50	<5	<5	67	<5	<5	100	<5	<5	100	<5	<5	33
Bae Abertawe	15	14	93	9	<5	56	10	10	100	<5	<5	100	8	<5	25
<b>Cyfanswm</b>	<b>101</b>	<b>87</b>	<b>86</b>	<b>101</b>	<b>78</b>	<b>77</b>	<b>84</b>	<b>73</b>	<b>87</b>	<b>93</b>	<b>78</b>	<b>84</b>	<b>72</b>	<b>46</b>	<b>64</b>

Ffynhonnell: NTBS, 2023

**Tabl 12 Canlyniadau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl safle'r clefyd ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda hyd triniaeth disgwylidig <12 mis, Cymru, 2016-2020<sup>a</sup>**

Lleoliad y clefyd	Wedi cwblhau		Wedi marw		Wedi'i golli felly heb ei ddilyn		Dal i dderbyn triniaeth		Wedi stopio		Heb ei werthuso <sup>b</sup>		Cyfanswm <sup>c</sup>
	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n
Ysgyfeiniol yn unig	23	70	<5	<5	<5	<5	0	0	0	0	8	24	33
Ysgyfeiniol, gydag Allysgyfeiniol neu hebddo	30	68	<5	<5	<5	<5	<5	<5	0	0	11	25	44
Allysgyfeiniol yn unig	16	57	<5	<5	<5	<5	0	0	<5	<5	9	32	28
Nodau lymff allthorasig	<5	<5	0	0	<5	<5	0	0	<5	<5	<5	<5	8
Nodau lymff mewnthorasig	5	50	0	0	0	0	0	0	0	0	5	50	10
Eisbilennol	5	83	0	0	0	0	0	0	0	0	<5	<5	6
Pob lleoliad Allysgyfeiniol arall <sup>d</sup>	6	67	<5	<5	0	0	0	0	0	0	<5	<5	9
<b>Cyfanswm</b>	<b>46</b>	<b>64</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>&lt;5</b>	<b>20</b>	<b>28</b>	<b>72</b>

<sup>a</sup>Nid yw'n cynnwys achosion o TB sydd ag ymwrthedd cychwynnol a helaeth i riffampicin a TB MDR sydd wedi'u trin a'r rhai â TB CNS, asgwrn cefn, gronynnol neu gryptig sydd wedi lledaenu

<sup>b</sup>Mae heb eu gwerthuso'n cynnwys coll, ddim yn hysbys ac wedi'u trosglwyddo allan

<sup>c</sup>Gellir adrodd am y clefyd mewn sawl lleoliad felly nid yw'r cyfanswm yn cyfateb â chyfanswm nifer yr achosion

<sup>d</sup>Mae'r holl lleoliadau allysgyfeiniol eraill yn cynnwys gastroberfeddol, cenhedlol-wrinol, laryngaid, clefydau allysgyfeiniol eraill a rhai sydd ddim yn hysbys]

<sup>1</sup>Nid yw'n cynnwys TB ag ymwrthedd cychwynnol a helaeth i riffampicin ac achosion TB MDR a gafodd driniaeth a'r rhai â TB CNS, asgwrn cefn, gronynnol neu gryptig sydd wedi lledaenu

**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

O'r 11 achos o TB Ysgyfeiniol ac Allysgyfeiniol lle adroddwyd canlyniad y driniaeth, roedd 7 (64%) wedi cwblhau triniaeth.

### 5.2.1 Marwolaethau cysylltiedig â TB

Yn ystod y 5 mlynedd 2016-2020, mae cyfran y marwolaethau mewn achosion TB wedi parhau'n gymharol isel, gydag uchafbwynt o 14% yn 2017, fel y dangosir yn Nhabl 13.

**Tabl 13 Yr holl achosion o TB difrifol ac sy'n sensitif i gyffuriau yr adroddwyd iddynt farw yn y canlyniad diwethaf a gofnodwyd, Cymru, 2016-2020**

Blwyddyn	Achosion a adroddwyd	Cyfanswm marwolaethau		TB wedi achosi'r farwolaeth neu wedi cyfrannu ati		TB yn eilbeth i'r farwolaeth		Ddim yn Hysbys		Post mortem	
	n	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%
2016	101	8	8	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
2017	101	14	14	7	50	5	36	<5	<5	<5	<5
2018	93	9	10	5	56	<5	<5	<5	<5	<5	<5
2019	99	7	7	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5
2020	79	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5	<5

<sup>1</sup>Nid yw'n cynnwys TB ag ymwrthedd cychwynnol a helaeth i riffampicin ac achosion TB MDR a gafodd driniaeth

**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

## 6 Atal a rheoli TB

Nid yw gwybodaeth am sgrinio mewnfudwyr i'r DU cyn mynediad ar gael fel mater o drefn.

Daeth darpariaeth brechlyn Bacillus Calmette-Guérin (BCG) i ben yn amserlen frechu'r GIG yng Nghymru yn 2005; caiff ei gynnig dim ond i blant sydd mewn mwy o berygl o ddod i gysylltiad â rhywun sydd â TB<sup>12</sup>. Mae'r brechlyn BCG yn effeithiol wrth amddiffyn plant ifanc rhag mathau difrifol o TB, fel meningitis, ond nid yw'n atal haint sylfaenol ac nid yw'n atal haint cudd rhag ailactifadu<sup>13</sup>.

**Tabl 14 Canran yr achosion sydd wedi derbyn brechiadau BCG a chanran yr achosion â statws hysbys, 2017-2021**

Grŵp Oedran	2017		2018		2019		2020		2021	
	Wedi'u brechu %	Statws yn Hysbys %	Wedi'u brechu %	Statws yn Hysbys %	Wedi'u brechu %	Statws yn Hysbys %	Wedi'u brechu %	Statws yn Hysbys %	Wedi'u brechu %	Statws yn Hysbys %
0-4	60	100	0	100	0	67	-	-	0	100
5-14	100	50	100	100	75	100	-	-	100	100
15-24	71	58	80	42	78	60	67	67	33	43
25-34	80	68	70	56	85	68	77	72	76	81
35-44	92	71	90	67	80	83	50	53	89	53
45-54	100	53	100	55	86	64	85	81	100	69
55-64	83	43	83	43	60	42	100	78	100	45
65+	67	35	90	67	57	47	43	54	71	64
<b>Cyfanswm</b>	<b>82</b>	<b>58</b>	<b>85</b>	<b>56</b>	<b>74</b>	<b>65</b>	<b>72</b>	<b>68</b>	<b>81</b>	<b>64</b>

**Ffynhonnell: NTBS, 2023**

O'r rhai â statws brechu BCG hysbys, roedd 81% o'r achosion yn 2021 wedi cael eu brechu yn flaenorol, cynnydd o gymharu â 2020 (72%). Roedd y cyfraddau brechu uchaf yn y grwpiau oedran 5-14, 45-54 a 55-64 oed, lle'r oedd 100% o'r rhai â statws hysbys wedi'u brechu.

<sup>12</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) [Brechlyn Bacillus Calmette-Guérin \(BCG\) – Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)

<sup>13</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) [BCG \(who.int\)](#)

## 7 Clystyrau a oedd yn destun dilynnianu genomau cyfan

Cyflwynwyd gwaith dilyniannu genomau cyfan (WGS) o unigion twbercwlosis i Gymru yn 2019 er mwyn categorio mathau o rywogaethau, mathau o ymwrthedd a dadansoddi clystyrau.

Diffinnir clwstrwr a nodwyd gyda WGS fel 2 neu ragor o bobl sydd â diagnosis o TB gweithredol sydd â llai na 12 o wahaniaeth yn yr SNP<sup>14</sup>. Mae gwahaniaethau SNP yn cyfeirio at polymorffeddau polyniwcleotid sengl (SNPau) mwtaniad ar un safle yn y dilyniant DNA. Gwneir cymhariaeth SNP genomau cyfan i nodi SNPau sy'n wahanol rhwng unigion mewn clwstrwr sy'n cyd-fynd â genoteip-. Er y gellir diffinio 12 gwahaniaeth SNP fel trothwy uchaf perthynas genomig rhwng lletywyd sydd â chysylltiad epidemiolegol, rhaid asesu terfynau is ar sail sefyllfa unigol neu frigiad o achosion<sup>13</sup>.

Ers cyflwyno WGS a gwaith dadansoddi clystyrau yng Nghymru yn 2019, mae cyfanswm o 35 clwstrwr o TB gyda dau neu ragor o achosion yng Nghymru wedi'u nodi.

Yn 2021, nodwyd tri chlwstrwr newydd â chyswllt genomaidd. O'r 90 achos yr hysbyswyd amdanynt yn 2021, roedd 13 unigolyn yn gysylltiedig â chlystyrau ac fe'u dosbarthwyd ar draws 9 clwstrwr (gan gynnwys y tri a oedd newydd eu nodi). O'r achosion hyn:

- Roedd pob un ohonynt yn *Mycobacterium tuberculosis*
- Nid oedd dim un ohonynt yn cael ei ystyried fel bod ag ymwrthedd i nifer o'r prif gyffuriau (MDR)
- Roedd pob achos yn ysgyfeiniol gyda chlefyd allysgyfeiniol neu hebdo, gyda 6/13 (46%) yn cael canlyniad positif i brawf sbwtwm.
- Gwelwyd niferoedd tebyg o achosion TB clystyrog mewn Byrddau Iechyd ar hyd a lled Cymru ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Roedd gan dros hanner (7/13) yr achosion cysylltiedig ag WGS yn 2021 o leiaf un ffactor risg cymdeithasol

Mae'r gwaith o adrodd ar glystyrau a nodwyd gyda WGS yn cael ei wneud gan Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi mesurau rheoli Diogelu Iechyd. O'r herwydd, mae'r adroddiadau hyn wedi'u cyfyngu.

---

<sup>14</sup>Llawlyfr UKHSA ar Ddilynnianu genomau cyfan o *Mycobacterium tuberculosis* ac ymchwilio i glystyrau. Ar gael yn: [TB WGS and cluster investigation handbook](#)